

# Bod yn glwb neu'n gymdeithas

Cynnwys a Chadw Aelodau

# Cynnwys

---

Paratoi sesiynau	3
Amcanion y sesiwn	3
Amcanion dysgu	3
Dull	3
Adnoddau sydd eu hangen	3
Amseru a awgrymir	3
Cynnal y sesiwn	5
Rhagarweiniad	5
Gwaith grŵp	5
Araith gan y tiwtor	5
Gwaith grŵp	6
Adborth/Trafodaeth	6
Tanio Syniadau	7
Gwaith grŵp	7
Adborth/Trafodaeth	7
Crynodeb ac Adolygiad	7

# Cynllunio sesiynau

**Sgiliau dan sylw**

Gwaith tîm

Datrys problemau

# Paratoi sesiynau

## Amcanion y sesiwn

Dylai hon fod yn sesiwn boblogaidd ymysg swyddogion clybiau a chymdeithasau. Efallai byddwch chi am ei chynnig sawl gwaith y flwyddyn. Diben y sesiwn hon yw annog swyddogion i feddwl am eu perthynas â'u haelodau. Bydd yn sôn yn enwedig am sut mae mwyfwy o gyfranogiad a chyfrifoldeb yn annog pob i gadw'n heini.

## Amcanion dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn hon bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn gallu:

- Egluro'r hyn a olygir gan gyfranogiad
- Adnabod rhwystrau rhag cymryd mewn clybiau a chymdeithasau
- Esbonio gweithredoedd i helpu cadw aelodau

## Dull

Bydd yr ymarfer yn cynnwys rhagarweiniad byr i'r grŵp yn ei gyfarwydd, sesiwn tanio syniadau, araith gan diwtor a gwaith grŵp. Ceir adborth cyn sesiwn tanio syniadau arall, gwaith grŵp a sesiwn adborth arall.

## Adnoddau sydd eu hangen

- Siart troi a phennau (o leiaf 5)

## Amseru a awgrymir

Rhagarweiniad	5 munud
Tanio syniadau	5 munud
Araith tiwtor	10 munud
Gwaith grŵp	10 munud
Adrodd yn ôl	15 munud
Tanio syniadau	5 munud
Gwaith grŵp	15 munud
Adrodd yn ôl	10 munud
Crynodeb	5 munud

**Cyfanswm amser = 1 awr 20 munud**

# Cynnal y sesiwn

## Cynnal y sesiwn

### Rhagarweiniad

1. Dechreuwch drwy roi braslun o nodau ac amcanion dysgu'r ymarfer. Esboniwch sut bydd y sesiwn yn cael ei chynnal, h.y. y dulliau y byddwch chi'n eu defnyddio a phasgiliau byddwch chi'n eu datblygu.
2. Byddwch yn gadarnhaol a phwysleiswch bwysigrwydd y sesiwn hon i bob clwb a chymdeithas - beth bynnag fo'u maint presennol, mae wastad gallu i dyfu. Os nad yw clybiau a chymdeithasau'n cynnwys eu haelodau, mae perygl y byddan nhw'n mynd yn glicaidd neu allan o gyrraedd.

### Gwaith grŵp

3. Gofynnwch i'r cyfranogwyr dreulio munud yn meddwl am y gair 'cyfranogiad' o ran clybiau a chymdeithasau ac ysgrifennu'r gair yng nghanol darn o bapur siart troi.
4. Gofynnwch iddyn nhw siarad am eu barn a chofnodi fersiynau wedi'u byrhau ar y papur. Sicrhewch eich bod chi'n crynhoi eu datganiadau'n gywir. Gorffennwch drwy dynnu sylw at y ffaith bod lefelau tra gwahanol o gyfranogi - o aelodaeth i eistedd ar y pwyllgor / mynychu pob gêm neu ddigwyddiad.
5. Gosodwch y papur siart troi gyda barn y grŵp ar gyfranogi ar wal gerllaw.

### Araith gan y tiwtor

6. Dwedwch wrth y grŵp y byddwch chi'n treulio ychydig funudau'n siarad am y cysylltiad rhwng cyfranogi a difaterwch. Rhowch wybod iddyn nhw a ydych chi am ateb cwestiynau tra eich bod chi wrthi neu ar y diwedd.
7. Ysgrifennwch y gair 'Difaterwch' ger pen y darn o bapur (paratowch hyn ymlaen llaw os yw'n bosib) a dechreuwch drwy drafod y pwyntiau canlynol:
  - Yn aml, mae llawer o bwyllgorau clybiau a chymdeithasau yn cwyno am ddifaterwch myfyrwyr a'u haelodau
  - Ni welir y myfyrwyr sy'n cofrestru'n gynnar yn y flwyddyn eto mewn cyfarfodydd/sesiynau ymarfer
  - Gellir bod tuedd i dderbyn hyn a'i feio ar 'ddifaterwch myfyrwyr'
  - Mewn gwirionedd, er bod grŵp bach o fyfyrwyr ag ond ychydig o ddiddordeb mewn gweithgareddau y tu hwnt i'w cwrs, byddai llawer o fyfyrwyr yn croesawu'r cyfle i gyfranogi'n fwy ond maen nhw'n methu gwneud hynny am sawl rheswm.
  - Pan fydd eu profiad cychwynnol mewn clwb neu gymdeithas yn un difyr, sy'n cynnwys cyfranogi gwirioneddol, anogir cylch rhinweddol. Mae cyfranogiad ystyrllon a theimlo'n rhan o'r grŵp yn arwain at fyfyrwyr sydd am ailadrodd y profiad a cheisio lefel uwch o gyfranogi.
8. Rhowch linell drwy'r gair 'Difaterwch' ac ysgrifennwch y geiriau 'Cyfranogi', 'Sbarduno' a 'Grymuso' oddi tano. Yna ewch ati drwy wneud y pwyntiau canlynol:
  - Caiff pobl eu **sbarduno** gan ddymuniadau gwahanol. Mae'n amlwg bod dod yn rhan o grŵp cymdeithasol yn ddymuniad mawr i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf sy'n mynychu coleg newydd. Mae angen i glybiau a chymdeithasau sicrhau bod myfyrwyr hŷn yn croesawu aelodau newydd yn syth. Caiff pobl hefyd eu sbarduno yn

## Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol – Cynnwys a Chadw Aelodau

aml gan ymdeimlad o gyflawni a chan gael cyfrifoldeb.

- Mae clybiau a chymdeithasau sy'n annog eu haelodau'n rhagweithiol i gyfranogi mewn penderfyniadau allweddol - **rhoi grym** iddynt - yn tueddu i fod ag aelodaeth fwy rhagweithiol. Mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn rhan o'r hyn a benderfynwyd ac felly byddan nhw'n gweld mwy o werth ynddo.

Efallai byddech chi'n dymuno ymhelaethu ar unrhyw un o'r themâu hyn - byddai cynnwys enghraifft o gymdeithas neu glwb llwyddiannus yn eich coleg hyd yn oed yn well.

Gofynnwch a oes angen eglurhad o unrhyw beth ar unrhyw un.

### Gwaith grŵp

9. Dwedwch wrth y grŵp y byddech chi am iddyn nhw ystyried y gwahanol rwystrau rhag cynhwysiant y mae clybiau a chymdeithasau yn aml yn eu rhoi rhwng myfyrwyr newydd a'u hunain.
10. Rhannwch y grŵp yn grwpiau bach o 4 i 6 person. Dosbarthwch ddarn o bapur siart troi a phennau i bob grŵp a phwysleiswch y bydd angen cofnodwr ar bob grŵp i roi adborth ar syniadau'r grŵp. Dwedwch wrthyn nhw fod ganddynt deng munud i gwblhau'r dasg.

Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch heibio pob un yn ei dro i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg. Cyn diwedd y gwaith grŵp, ewch yn ôl at bob un o'r grwpiau i'w hatgoffa i ddewis rhywun i ddarparu adborth ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amser.

### Adborth/Trafodaeth

Er mwyn hwyluso trafodaeth, gofynnwch un grŵp i gyflwyno eu syniadau ar rwystrau rhag cyfranogi. Gofynnwch i'r grwpiau a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno a gofynnwch iddynt ddilyn drwy gyflwyno eu syniadau eu hunain.

Sicrhewch eich bod chi'n diolch i bob grŵp am eu cyfraniadau.

Isod ceir awgrymiadau o ran sut gallai'r grwpiau ymateb er mwyn i chi fformiwleiddio eich syniadau eich hunain i gynnau trafodaeth.

Gallai rhwystrau rhag cyfranogi gynnwys:

- Ystyried clwb neu gymdeithas yn rhy "glicaidd"
- Diffyg gwybodaeth ynglŷn â chlwb neu gymdeithas
- Ystyried clwb neu gymdeithas yn un ar gyfer arbenigwyr yn unig
- Ystyried clwb neu gymdeithas yn un sydd angen offer arbenigol/drud
- Ystyried clwb neu gymdeithas yn un ar gyfer pobl sy'n yfed yn unig
- Ystyried clwb neu gymdeithas yn un ar gyfer pobl ifanc yn unig
- Clwb neu gymdeithas sydd ond ar un safle (os ydych chi ar sawl safle)
- Clwb neu gymdeithas sydd ond yn addas i un grŵp penodol o fyfyrwyr.
- Myfyrwyr sydd byth wedi rhoi cynnig ar weithgaredd y clwb neu'r gymdeithas (e.e. Tai Chi, Hwyllo ayyb.)

Er mwyn cynnau trafodaeth, wedi i'r holl grwpiau gyflwyno, dewiswch un neu ddau o'r prif rwystrau y tynnwyd sylw atynt a gofynnwch i'r grŵp drafod ffyrdd y gallen nhw ddileu'r rhwystrau hyn.

Yn ddelfrydol, gallen nhw awgrymu'r canlynol:

- Gwell cyhoeddusrwydd / gwybodaeth
- Proses recriwtio wedi'i hanelu at grwpiau a gaiff eu tangynrychioli (e.e. dechreuwyr, myfyrwyr hŷn, myfyrwyr o safle arall.)
- Diwrnodau blas (e.e. ar gyfer Tai Chi neu Hwyllo ayyb.)
- Cyd-ddigwyddiadau cymdeithasol gyda chlwb neu gymdeithas arall

11. Ewch at ran nesaf y sesiwn, sy'n ymwneud â chynyddu eu haelodaeth a chadw myfyrwyr gydol eu cyfnod yn y coleg/brifysgol.

## Bod yn glwb neu'n gymdeithas effeithiol – Cynnwys a Chadw Aelodau

Gofynnwch i'r grŵp "Pam ydy hi'n well bod â myfyrwyr yn eich clwb neu gymdeithas sydd â gwahanol gefndiroedd a phrofiadau?"

Efallai cewch chi amryw o ymatebion - y peth pwysicaf yw po fwyaf amrywiol yw eich aelodaeth y mwyaf diddorol y bydd hi'n tueddu i fod.

Mae clybiau a chymdeithasau'n hollbwysig o ran sicrhau bod gan fyfyrwyr o wahanol wledydd, ardaloedd ym Mhrydain, cefndiroedd astudio, neuaddau, safleoedd, oeddrannau, rhywiau, crefyddau, galluoedd ayyb. i gymysgu.

### Tanio Syniadau

12. Trowch at y siart troi ac anogwch bobl i feddwl am "fanteision cadw aelodau flwyddyn ar ôl blwyddyn". Bydd ond angen ysgrifennu "manteision cadw" ar y papur.

13. Gofynnwch i'r cyfranogwyr ddweud eu syniadau.

Y pwynt pwysig y dylech chi gyfeirio ato ar y diwedd yw bod aelodau profiad yn creu swyddogion clwb a chymdeithas gwell. Fyddwch chi ond yn sicrhau parhad flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda chyfranogiad hirdymor.

Hefyd cewch ychwanegu unrhyw syniadau o ran pam rydych chi'n meddwl bod cadw aelodau'n beth da.

### Gwaith grŵp

14. Dwedwch wrth y grŵp yr hoffech chi dreulio amser nawr yn meddwl am ffyrdd y gallan nhw annog aelodaeth ehangach (a mwy) a lleihau nifer y bobl sy'n gadael.

Gofynnwch i'r grŵp fynd yn ôl i'w grwpiau llai o 4 - 6. Dosbarthwch ddarn o bapur siart troi a phennau ysgrifennu i bob grŵp a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu "aelodaeth ehangach / mwy" a "llai o bobl yn gadael" yng nghanol y dudalen.

Gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio lluniau yn hytrach na geiriau (lle bo'n bosib) i

symboleiddio pethau y bydden nhw'n eu gwneud i gyrraedd eu hamcanion. Pwysleiswch nad ydych chi'n disgwyl campwaith!

Cyhoeddwch y bydd y rhain yn cael eu gosod o gwmpas yr ystafell ar y diwedd a bod ganddyn nhw 15 i gyflawni'r dasg.

Rhowch ychydig funudau i bob grŵp setlo, yna ewch heibio pob un yn ei dro i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r dasg.

### Adborth/Trafodaeth

Ar ôl 15 munud, gofynnwch i'r grwpiau orffen a gosodwch y lluniau ar hyd un wal. Ceisiwch sicrhau mai llun y grŵp a siaradodd ddiwethaf yn y sesiwn gyntaf yw'r llun cyntaf.

Edrychwch ar y llun un ar y tro gyda gweddill y grŵp a gofynnwch am eglurhad os oes angen. Dylai hyn fod yn weddol ysgafn - cewch chwarae jôcs bach arnyn nhw ynglŷn ag ansawdd y lluniau.

Gorffennwch y sesiwn drwy ddiolch i'r grŵp am eu hawgrymiadau a chodwch y pwyntiau canlynol:

- gall pawb ddysgu o arferion da clybiau a chymdeithasau eraill
- does dim hud a lledrith, mesur di-feth o gynyddu'r aelodaeth ac atal pobl yn gadael
- mae cydnabod cyrhaeddiad a/neu waith caled aelodau'n hollbwysig
- bydd tynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag cyfranogi a'u dileu yn fuddiol
- mae angen ochr gymdeithasol gref ac amrywiol ar glybiau a chymdeithasau
- bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn ymateb yn dda i gyfrifoldeb os cânt ddigon o gymorth
- mae'n anochel y bydd ambell fyfyrwr yn gadael

### Crynodeb ac Adolygiad

Treuliwch 5 munud ar y diwedd i edrych yn ôl ar brif bwyntiau'r sesiwn. Edrychwch yn ôl ar yr amcanion dysgu, dosbarthwch y ffurflenni gwerthuso a chasglwch nhw wedi iddynt gael eu cwblhau a dewch â'r sesiwn i ben.



Macadam House  
275 Gray's Inn Road  
Llundain WC1X 8QB  
f 0845 5210 262  
f 020 7380 0794  
e nusuk@nus.org.uk  
**www.nus.org.uk**

**ucm**

undeb cenedlaethol y **myfyrwyr**